# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ann Griffith – Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, K.P. Hughes, T. Victor Hughes, |
| **WRTH LAW**: | Swyddog Cynllunio (MD),<br>Peiriannydd Rheoli Datblygu (Priffyrdd) (JAR). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (cais 1). |

---

**1 20C313A - CAIS LLAWN I GODI 14 O ANHEDDAU FFORDDIADWY, ADEILADU MYNEDFA A FFORDD FEWNOL NEWYDD YNGHYD Â GOSOD GORSAF BWMPIO CARTHION AR DIR ODDI AR FFORDD Y FELIN, CEMAES**

Ymwelodd yr aelodau â'r safle ac eglurodd y Swyddog Cynllunio'r cynigion. Wedi mynd i mewn i'r safle, dangoswyd lleoliad yr anheddau arfaethedig ynghyd â'r pwynt mynediad.

**2 21C58H – CAIS LLAWN AR GYFER CODI 10 O UNEDAU GWYLIAU YCHWANEGOL YM MHARC EURACH, LLANDDANIEL FAB**

Eglurodd y Swyddog Cynllunio'r cynigion a chyfeiriodd at y safle cyfredol. Ymwelwyd â'r safle cyfredol a'r brifford gyfagos. Edrychwyd hefyd ar leoliad y llwybr cyhoeddus.

**Y CYNGHORYDD ANN GRIFFITH**
**CADEIRYDD**